# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Video conference via Zoom**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 12 Rhagfyr 2023

Amser: 09.01 - 09.21

# Preifat

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AS, Llywydd (Cadeirydd)<br>Lesley Griffiths AS<br>Heledd Fychan AS<br>Russell George AS |
| Staff y Pwyllgor: | Lisa Griffiths (Clerc)<br>Yan Thomas (Dirprwy Glerc) |
| Eraill yn bresennol | Jane Dodds AS<br>David Rees AS, Y Dirprwy Lywydd<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd<br>Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd<br>Bethan Davies, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Julian Luke, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Llinos Madeley, Gweithdrefnau a Sgiliau Seneddol<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Llywydd yr Aelodau i'r cyfarfod. Cafwyd ymddiheuriadau gan Darren Millar. Roedd Russell George yn bresennol yn ei le.

## 2 Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol i'w cyhoeddi.

## 3 Trefn Busnes

### 3.1 Busnes yr wythnos hon

Rhoddodd y Trefnydd wybod i'r Rheolwyr Busnes am y newidiadau a ganlyn:

- Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Trefniadau Uwchgyfeirio ac Ymyrryd ar gyfer Gwasanaethau Mamolaeth a Newydd-anedig ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (30 munud)
- ~~Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Diweddariad ar 'Mwy na geiriau 2022-27' (30 munud)~~ *Tynnwyd yn ôl*
- ~~Datganiad gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg: Diweddariad ar sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil a chyhoeddi datganiad blaenoriaethau Gweinidogion Cymru – (30 munud)~~ *Tynnwyd yn ôl*
- Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd Amrywiol) (Diwygio) (Cymru) 2023 (~~15~~ 10 munud)

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal fel yr eitem olaf o fusnes.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 5.25pm.

**Dydd Mercher**

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gyflwyno cynnig bod y Senedd yn ethol Samuel Kurtz yn aelod o'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn lle James Evans. Tynnodd y Llywydd sylw at hyn a'r newidiadau a ganlyn i gyfarfod dydd Mercher:

- Cwestiynau i Gomisiwn y Senedd (~~30~~ 15 munud)
- Cynnig i ethol Aelod i bwyllgor (5 munud)

  - Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal cyn y Ddadl Fer
  - Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 6.25pm.

**3.2 Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf**

Rhoddodd y Trefnydd wybod i'r Rheolwyr Busnes nad oes unrhyw newidiadau i amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

**3.3 Amserlen y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf**

Cytunwyd ar yr ychwanegiadau a ganlyn i amserlen Busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf:

**Dydd Mercher 24 Ionawr 2024 –**

- Dadl Aelodau o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Yr heriau sy'n wynebu gweithlu'r diwydiant creadigol yng Nghymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Dadl Fer: Altaf Hussain (Gorllewin De Cymru) (30 munud)

# 4 Deddfwriaeth

## 4.1 Diweddariad ar gyfer Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol

Cytunodd y Pwyllgor Busnes ar y canlynol:

- cyfeirio'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Masnach (Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth Traws-Môr Tawel) at Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, i graffu arno, gyda dyddiad cau i gyflwyno adroddiad ar 15 Mawrth 2024;
- cyfeirio'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) ar y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol at y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol a’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad i graffu arno, gyda dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar 2 Chwefror 2024.

# 5 Gwaith Gweithdrefnol

## 5.1 Adolygiad Cyfyngedig o Reol Sefydlog 26C - Deddfau Cydgrynhoi'r Senedd

Trafododd y Pwyllgor Busnes bapur yn ymwneud ag adolygiad cyfyngedig o Reol Sefydlog 26C (Deddfau Cydgrynhoi'r Senedd), yn dilyn gohebiaeth a ddaeth i law gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar 3 Hydref a gododd rai materion yn deillio o'i ystyriaeth o Fil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru). Nododd y Pwyllgor fod ei Raglen Waith Weithdrefnol yn cynnwys adolygiad llawn o Reol Sefydlog 26C sydd wedi’i drefnu ar ôl i'r Bil Cydgrynhoi nesaf gael ei ystyried gan y Senedd.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes ar y canlynol:

- cynnig bod y Senedd yn diwygio'r Rheolau Sefydlog i egluro pryd y caiff Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor ei chwblhau ac ystyried adroddiad drafft ar y newidiadau arfaethedig yn y flwyddyn newydd;

- ysgrifennu at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i egluro, o ystyried natur gyfyngedig yr adolygiad hwn, ei fod yn bwriadu ystyried y materion canlynol fel rhan o'r adolygiad llawn o Reol Sefydlog 26C:
  - manteision ac anfanteision diwygio'r Rheolau Sefydlog sy'n amlinellu sut mae Bil Cydgrynhoi yn mynd rhagddo o Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor i Ystyriaeth Fanwl y Senedd / Cyfnod Terfynol ; ac
  - ymestyn yr amser rhwng adroddiad y pwyllgor cyfrifol ac Ystyriaeth Fanwl y Senedd yn gallu dechrau/bod ystyried cynnig Cyfnod Terfynol yn bosibl, er mwyn caniatau rhagor o amser i'r Aelodau ystyried adroddiad ac argymhelliad y pwyllgor cyfrifol a gweithredu arnynt.

Nododd y Pwyllgor Busnes, pe pai sefyllfa’n codi yn y cyfamser lle nad yw pwyllgor yn gallu dod i gytundeb ar ganlyniad ei Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor, a bod pleidlais gyfartal yn digwydd, bydd cadeirydd y pwyllgor cyfrifol yn cael cyngor gweithdrefnol gan y clerc yn unol â'r cynseiliau a'r egwyddorion sylfaenol a gymhwysir o ran defnyddio pleidlais fwrw.

## 6 Unrhyw Fusnes Arall

### Gwrandawiadau Ymchwiliad Covid y DU

Rhoddodd y Trefnydd wybod i Reolwyr Busnes y gallai gwrandawiadau Ymchwiliad Covid y DU yng Nghymru, a gynhelir rhwng 27 Chwefror a 14 Mawrth 2024, effeithio ar amserlenni rhai Gweinidogion yn ystod tymor y gwanwyn.